



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gofal Mamolaeth yng Nghymru

Gweledigaeth 5 Mlynedd ar gyfer y Dyfodol (2019-2024)

Gorffennaf 2019

Gofal Mamolaeth yng Nghymru - Gweledigaeth 5 Mlynedd ar gyfer y Dyfodol

Rhagair

Mae'r sylfeini ar gyfer iechyd a lles yn dechrau yn ystod beichiogrwydd. Lle bynnag y mae menywod a babanod yn byw yng Nghymru dylai pob un ohonynt gael profiad cadarnhaol o ofal mamolaeth a newyddenedigol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi gweledigaeth ar gyfer sicrhau gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol o ansawdd uchel yng Nghymru. Rydym wedi gwrandao ar famau a theuluoedd yn ogystal â gweithwyr iechyd proffesiynol ac wedi ymateb i'r hyn y maent yn ei ofyn gan ein gwasanaethau. Ein nod yw rhoi'r teulu wrth wraidd penderfyniadau er mwyn i bob menyw, babi a'u teuluoedd gael gofal o'r ansawdd uchaf sy'n diwallu eu hanghenion.

Mae'r weledigaeth hon yn ganlyniad i lawer o bobl yn dod at ei gilydd i adnewyddu ein model o ofal mamolaeth a newyddenedigol – yn seiliedig ar y dystiolaeth bresennol sydd ar gael, yr arfer gorau a'r adborth gan deuluoedd a staff rheng flaen i ddylunio a gwella gwasanaethau presennol ymhellach. Rwy'n ddiolchgar am frwdfrydedd ac ymrwymiad pawb sy'n ymwneud â datblygu'r weledigaeth hon. Mae'r weledigaeth yn rhoi map llwybr i ni ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel sy'n sicrhau gwell iechyd a lles i famau a babanod yn y tymor byr, canolig a hir.

Gall gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n ddiogel ac o ansawdd uchel i famau a babanod yn ystod beichiogrwydd, genedigaeth ac yn dilyn genedigaeth, gael effaith gadarnhaol ar iechyd a chyfleoedd bywyd menywod a babanod, yn ogystal ag ar ddatblygiad iach plant drwy gydol eu bywyd. Gall hyn helpu i leihau effaith anghydraddoldebau a all arwain at ganlyniadau iechyd tymor hwy i deuluoedd, gan sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i famau, babanod a chymunedau.

Mae'n hanfodol canolbwyntio ein hadnoddau i wella gwasanaethau mamolaeth er mwyn cefnogi teuluoedd a chymunedau iach a hapus y dyfodol.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gorffennaf 2019

Gofal Mamolaeth yng Nghymru - Gweledigaeth 5 Mlynedd ar gyfer y Dyfodol


Crynodeb Gweithredol

Ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru yw sicrhau bod:

'Beichiogrwydd a genedigaeth yn brofiad diogel a chadarnhaol, a bod rhieni'n cael eu cefnogi i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i'w plentyn.'

Bydd timau amlbroffesiwn sy'n perfformio'n dda yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y teulu o fewn Byrddau Iechyd sy'n dangos arweinyddiaeth gref o fewn diwylliant o ymchwil a datblygu, dysgu parhaus, arfer gorau ac arloesi.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy ein 5 egwyddor o ofal mamolaeth:



Gofal Mamolaeth yng Nghymru - Gweledigaeth 5 Mlynedd ar gyfer y Dyfodol

Cyflwyniad - Gofal mamolaeth yng Nghymru

Mae beichiogrwydd a genedigaeth yn ddigwyddiadau sy'n newid bywyd menyw a'i theulu, mae'n ddigwyddiad pwysig y mae pobl yn disgwyl yn eiddgar amdano. Mae staff mamolaeth yn cael cyfle i gefnogi menyw a'i theulu drwy'r newid hwn gan sicrhau gofal diogel, clinigol effeithiol yn ogystal â phrofiad personol a chadarnhaol¹. Er mwyn sicrhau bod plant yng Nghymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, mae angen i ni ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy sy'n gallu paratoi teuluoedd i fod yn rhieni, yn ogystal ag ymateb i'w hanghenion cymdeithasol, emosiynol a chorfforol. Mae beichiogrwydd hefyd yn gyfle i helpu menywod i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw a gwneud y gorau o iechyd a lles eu teuluoedd drwy gydol eu hoes.

Mae'r weledigaeth hon wedi'i datblygu a'i llywio gan yr holl broffesiynau sy'n gweithio mewn gwasanaethau mamolaeth, yn ogystal â menywod a'u teuluoedd.

Datblygu'r weledigaeth

Gan adeiladu ar y 'Weledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru'², mae cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu amlbroffesiynol wedi arwain at greu'r weledigaeth 5 mlynedd newydd hon. Mae'r digwyddiadau hyn wedi adlewyrchu ac wedi ymateb i'r arolwg o famau 'Eich Babi, Eich Gofal'³ yng Nghymru ac arolwg 'Lleisiau Bydwragedd Cymru'⁴.

Mae polisi Llywodraeth Cymru wedi nodi blynyddoedd cynnar plentyndod a hybu iechyd a lles fel meysydd blaenoriaeth. Mae themâu allweddol 'Cymru Iachach: Ein cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol'⁵, gan gynnwys gofal iechyd darbodus, wedi'u hymgorffori yn y weledigaeth hon.

Amlygodd adolygiad diweddar Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr/Coleg Brenhinol y Meddygon o wasanaethau mamolaeth Cwm Taf⁶ feysydd penodol ar gyfer gwella a dysgu o ran darpariaeth gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Mae argymhellion wedi'u trafod mewn fforymau amlbroffesiynol cenedlaethol ac wedi'u gwreiddio yn y weledigaeth hon.



Gofal sy'n canolbwyntio ar y teulu

Bydd merched yn derbyn gofal personol, wedi ei gynllunio mewn partneriaeth â nhw ac a fydd yn adlewyrchu eu dewisiadau a'u hanghenion iechyd

Mae parch a thrugaredd yn werthoedd craidd sy'n sail i'r gofal y mae menywod a'u teuluoedd yn ei dderbyn. Mae gofal sy'n canolbwyntio ar y teulu yn galluogi menywod i gael rheolaeth dros eu hymddygiad, eu hamgylchoedd a'r driniaeth a gânt. Mae hyn yn cefnogi trafodaethau ystyrlon a phenderfyniadau ar y cyd ynglŷn â'u gofal yn ystod beichiogrwydd, y cyfnod esgor, y geni ac ar ôl geni. Mae gan wasanaethau mamolaeth rôl allweddol hefyd o ran hybu iechyd a lles y fam a'i theulu, ac o ran paratoi teuluoedd i fod yn rhieni

Ymrwymadau

- Bydd pob menyw a phob teulu yng Nghymru yn cael eu trin ag urddas, trugaredd a pharch. Bydd rhywun yn gwrando arnynt gydol eu beichiogrwydd, eu genedigaeth a'u gofal ar ôl geni
- Bydd pob menyw yn cael gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau am eu gofal mamolaeth gan eu rhoi nhw, eu babi a'u teulu yn ganolog i unrhyw benderfyniadau
- Caiff pob menyw ei chefnogi i sicrhau ei bod yn cael yr iechyd a'r lles gorau posibl ar hyd ei hoes a bywyd ei theulu

Camau Gweithredu Cenedlaethol

- Bydd gweledigaeth gwasanaethau mamolaeth Cymru yn cynnwys cyd-gynhyrchu gyda menywod a'u teuluoedd i sicrhau bod penderfyniadau yn ymwneud â chynlluniau gwasanaeth a darpariaeth yn rhoi'r teulu yn y canol
- Byddwn yn rhoi dewis o ran lleoliad rhoi genedigaeth drwy dimau bydwreigiaeth cymunedol sydd â digon o staff ac adnoddau priodol, unedau bydwreigiaeth annibynnol, ynghyd ag unedau bydwreigiaeth ac unedau obstetrig ledled Cymru. Bydd menywod sy'n wynebu risg isel o gymhlethdodau yn ystod y cyfnod esgor yn cael dewis o'r 4 lleoliad geni ac yn cael gwybodaeth am ganlyniadau genedigaethau lleol i'w helpu i wneud eu penderfyniad 8.
- Rydym yn anelu at wella iechyd cenedlaethau'r dyfodol fel bod o leiaf 45% o famau yn wynebu risg isel o gymhlethdodau yn ystod y cyfnod esgor a fyddai'n eu galluogi i ystyried rhoi genedigaeth mewn unrhyw leoliad 9. Ein nod yw galluogi menywod a theuluoedd i fod yn iach a gallu geni yn yr amgylchedd o'u dewis, a bydd hyn yn

cynnwys dull ehangach o ymdrin â materion iechyd y cyhoedd o fewn Byrddau Iechyd ac ar lefelau ehangach yn y boblogaeth.

- Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i arwain gwaith ar lefel genedlaethol i wella canlyniadau yn y 1000 o ddiwrnodau cyntaf gan gefnogi systemau lleol i nodi anghenion ac i gynllunio camau gweithredu priodol. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi sefydlu dull ataliol o fewn gwasanaethau yn unol â Chymru Iachach ac yn cynorthwyo menywod a theuluoedd i gymryd camau i leihau eu risg o ganlyniadau gwaeth neu'r angen i ymyrryd.
- Bydd gwasanaethau mamolaeth yn cydweithio ag amrywiaeth o gyrrff cyhoeddus a thrydydd sector i atal ac i liniaru effaith amgylchiadau cymdeithasol a gofid ymysg menywod a bywydau eu teuluoedd
- Caiff bwydo ar y fron ei hyrwyddo a'i gefnogi drwy gydol y daith beichiogrwydd i fywyd babanod
- Bydd deunyddiau addysgol am feichiogrwydd a magu plant ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd

Camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd/Sefydliad

- Bydd gweithwyr gofal iechyd mamolaeth proffesiynol yn parhau i gefnogi menywod sydd â thystiolaeth o safon uchel i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i gefnogi penderfyniadau am eu gofal mamolaeth. Bydd hyn yn rhan o ddeialog parhaus rhwng y fenyw a'i tîm penodol drwy gydol ei beichiogrwydd. Bydd tadau, partneriaid neu aelodau o'r teulu hefyd yn cael cynnig cyfle i drafod y gofal hwn gyda'r tîm mamolaeth fel rhan o'n hymrwymiad i ofal sy'n canolbwyntio ar y teulu
- Bydd Byrddau Iechyd yn sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu cefnogi i ddarparu gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fenywod am bob agwedd ar eu gofal ac yn hyrwyddo dewis mewn amrywiaeth o opsiynau ynglŷn â'u beichiogrwydd gan gynnwys lle a dull geni er mwyn galluogi menywod i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal mamolaeth. Gall hyn gynnwys cynllunio deunyddiau cefnogol i helpu menywod i bwyso a mesur eu dewisiadau ac i ystyried dechrau esgor yn ddiogel y tu allan i uned obstetrig lle bo'n bosibl
- Bydd gweithwyr iechyd mamolaeth proffesiynol yn trin menywod â charedigrwydd a pharch. Pan fydd dewis menyw y tu allan i'r canllawiau clinigol, bydd yn cael ei chynorthwyo gan ei Hobstetregydd Ymgynghorol a/neu ei Bydwraig Ymgynghorol i lunio cynllun gofal unigol ar y cyd. Yna, bydd y cynllun hwn yn cael ei gyfleu i'r tîm amlbroffesiwn
- Bydd Byrddau Iechyd yn ceisio cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd lle bynnag y bo modd, yn enwedig lle bo amgylchiadau'n gofyn am ofal oddi cartref. Bydd hyn yn cynnwys llety penodedig i deuluoedd yn agos at unedau neu gyfleusterau newyddenedigol er mwyn darparu ar gyfer partneriaid mewn gofal ôl-enedigol.
- Bydd Byrddau Iechyd yn mynd ati i geisio barn mamau a'u teuluoedd i lywio'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau. Ymchwilir i wahanol ddulliau o ymgysylltu er

mwyn targedu grwpiau agored i niwed gan ddefnyddio strategaethau ac atebion lleol

- Bydd Byrddau Iechyd yn casglu gwybodaeth ansoddol yn rheolaidd fel y disgrifiwyd gan set ddata dangosyddion perfformiad Mamolaeth Cymru Gyfan, er enghraifft, straeon cleifion, profiad menywod/teuluoedd ac arolygon staff.
- Bydd Byrddau Iechyd yn gweithio ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a thimau iechyd y cyhoedd lleol i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys lleihau nifer y menywod sy'n ysmegu yn ystod beichiogrwydd, lleihau gordewdra, a gwella iechyd a lles rhieni a babanod, gan gynnwys iechyd meddwl. Bydd hyn yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwnsela cyn beichiogi (lle bo'n briodol), cymorth bwydo ar y fron a chyngor a gweinyddu dulliau atal cenhedlu.
- Bydd Byrddau Iechyd yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadol gyda thair, gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau'r trydydd sector i atal a lliniaru effeithiau trallod ym mywydau teuluoedd a deall ymhellach effaith penderfynyddion cymdeithasol iechyd ar ddeilliannau plentyndod. Mae cydweithio rhwng bydwragedd, meddygon teulu ac ymwelwyr iechyd yn hanfodol i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y teulu a ategir gan broses gyfathrebu gadarn a phrosesau trosglwyddo gofal diogel



Gofal diogel ac effeithiol

Bydd menywod yn cael gofal diogel ac effeithiol; gyda llai o risg, ymyrraeth ac amrywiad lle bynnag y bo modd

Mae'r ddarpariaeth gofal mamolaeth wedi gweld mwy o gymhlethdodau dros y degawd diwethaf gyda chyfraddau cynyddol o ordewdra a chyflyrau meddygol cronig. Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy ac yn darparu'r gofal gorau mae'n hanfodol bod menywod a theluoedd yn cael gofal o fewn y llwybrau mwyaf priodol a chan y gweithwyr proffesiynol sy'n diwallu eu hanghenion orau.

Ymrwymadau

- Byddwn yn sicrhau rhagoriaeth mewn gofal mamolaeth ac yn lleihau amrywiadau diangen ledled Cymru drwy adolygu a gweithredu ar ddata meintiol ac ansoddol a ymgorfforir mewn strategaeth gwella ansawdd genedlaethol
- Byddwn yn darparu cofnodion mamolaeth electronig ar gyfer pob menyw feichiog yng Nghymru, gan wella dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- Byddwn yn safoni'r broses o adolygu a rhannu'r gwersi a ddysgir o achosion o forbidrwydd a marwolaethau ymysg mamau a gofal amenedigol ledled Cymru

Camau Gweithredu Cenedlaethol

- Caiff sicrwydd ansawdd o ran darparu gwasanaethau mamolaeth ledled Cymru ei arwain gan adolygiad bwrdd perfformiad Llywodraeth Cymru ar y cyd ag asesiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Bydd hyn yn cael ei lywio gan ddangosyddion canlyniadau Perfformiad Mamolaeth Cymru gyfan
- Bydd gan bob Bwrdd Iechyd a grŵp proffesiynol gynrychiolaeth o arweinwyr amlbroffesiwn effeithiol mewn fforymau penodedig ledled Cymru, gan gynnwys Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol ar Iechyd Menywod ar gyfer Obstetreg a Gynaecoleg (NSAG), a Grŵp Cynghori Penaethiaid Bydwreigiaeth (HOMAG). Bydd y fforymau hyn yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofal mamolaeth ac yn cefnogi'r rhwydwaith Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol i ddatblygu ffrydiau gwaith i arwain meysydd gwaith a nodwyd.
- Bydd gan y rhwydwaith Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol aelodaeth amlbroffesiwn sy'n adlewyrchu'r broses o ddarparu gwasanaethau mamolaeth ledled Cymru.

- Bydd y cynllun gwaith ar gyfer y rhwydwaith Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol yn cyd-fynd â'r ymrwymadau yn y weledigaeth strategol hon a'r blaenoriaethau a ddatblygwyd drwy'r grwpiau cynghori cenedlaethol. Bydd y rhain yn cynnwys llwybrau clinigol Cymru gyfan ar gyfer meddygaeth y ffetws, meddygaeth y fam, gofal iechyd meddwl amenedigol, modelau ar gyfer darparu parhad gofal, cymhlethdodau yn ystod y cyfnod esgor a geni, a gwell gofal mamolaeth.
- Bydd y rhwydwaith Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol yn cydlynu adolygiad wedi'i safoni a dysgu ar y cyd o achosion o forbidrwydd ymysg mamau a gofal amenedigol a marwolaethau
 - Bydd set ddata Dangosyddion Perfformiad Mamolaeth Cymru Gyfan yn cael ei datblygu gan weithgor amlbroffesiwn cenedlaethol erbyn 2020. Cefnogir hyn gan NSAG, HOMAG, y rhwydwaith Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod yr un set ddata yn cefnogi arolygu'r boblogaeth. Bydd y set ddata'n cynnwys mesurau sy'n adlewyrchu dangosyddion ansawdd, diogelwch a menywod/teuluoedd a staff (e.e. arolygon). Yn benodol, byddwn yn lleihau achosion o'r canlynol:
 - marw-enedigaethau a marwolaethau newyddanedigion, encephalopathi ischaemig hypocsig (cymedrol/difrifol) a derbyn mamau i ofal critigol lefel 3
 - Iechyd y cyhoedd - rhoi'r gorau i ysmegu; gordewdra yn ystod beichiogrwydd.
 - Gofal yn ystod beichiogrwydd cynnar.
- Byddwn yn ymgymryd â gwaith cwmpasu ar systemau gwybodaeth cenedlaethol arfaethedig ac yn datblygu cofnod mamolaeth electronig Cymru gyfan a fydd ar gael i famau unigol ac ar draws Byrddau Iechyd.
- Bydd systemau gwybodaeth mamolaeth yn cysylltu data ledled Cymru er mwyn sicrhau bod modd i bob gweithiwr proffesiynol sy'n darparu gofal gael gafael ar gofnodion mamolaeth electronig. Bydd y mynediad hwn yn cynnwys arbenigwyr mewn gwahanol leoliadau daearyddol a darparwyr gofal sylfaenol. Bydd cofnodion geni hanesyddol hefyd ar gael yn electronig
- Mae gwasanaethau mamolaeth yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o nodi, cefnogi a darparu rheolaeth bellach i fenywod ag anghenion iechyd meddwl amenedigol. Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau cyffredinol, gwell ac wedi'u targedu o ansawdd uchel ar waith, gan gynnwys mynediad at therapiau seicolegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac unedau arbenigol i'r Fam a'r Babi i leihau achosion o wahanu pan mae angen triniaeth ychwanegol ar fenyw

Camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd/Sefydliad

- Bydd Byrddau Iechyd yn sicrhau bod canllawiau lleol yn gyfoes, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn hyblyg wrth ymateb i ddiweddariadau mewn canllawiau cenedlaethol a rhyngwladol (gan gynnwys MBRRACE-UK (Mamau a Babanod yn Lleihau Risg drwy Archwiliad ac Ymholiadau Cyfrinachol yn y DU), Each Baby Counts, yr Archwiliad Mamolaeth a Gofal Amenedigol Cenedlaethol, UKOSS (Arolwg Gwylidwriaeth Obstetrig y Deyrnas Unedig), Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Bydd angen cyfraniad amlbroffesiwn i ddatblygu'r canllawiau hyn.

- Dylai pob uned famolaeth fod â systemau a phrosesau yn eu lle ar gyfer adolygu holl ganllawiau/safonau ansawdd perthnasol NICE a nodi'r bylchau a'r camau gweithredu sydd eu hangen.
- Bydd byrddau iechyd yn casglu ac yn rhannu data ar ansawdd eu gwasanaethau mamolaeth a'r ffordd y cânt eu darparu fel y'u hamlinellir yn set ddata Dangosyddion Perfformiad Mamolaeth Cymru Gyfan. Bydd Byrddau Iechyd yn nodi arweinwyr gwella ansawdd mewn gwasanaethau mamolaeth a fydd yn cynorthwyo timau lleol i adolygu data ac i ymgymryd â gwelliannau i wasanaethau. Bydd yr arweinwyr gwella ansawdd yn rhai ambroffesiynol a byddant yn cael eu cefnogi gan adnoddau gwella ansawdd cenedlaethol.
- Bydd Byrddau Iechyd yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o ddysgu o ragoriaeth mewn gofal a myfyrio a dysgu o ganlyniadau andwyol. Lle y bo'n briodol, gofynnir am adolygiad gan gymheiriaid allanol gan Fyrddau Iechyd eraill i adolygu achosion ac i dynnu sylw at feysydd dysgu a rennir drwy'r rhwydwaith Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol.
- Bydd unrhyw ymchwiliad yn ceisio deall pam y gwnaethpwyd penderfyniadau clinigol, p'un ai a oedd y gofal yn is na'r safonau disgwyliedig a sut yr oedd yn gysylltiedig â system ehangach o weithio. Bydd strwythurau llywodraethu a rheoli o fewn Byrddau Iechyd yn gweithredu i liniaru risgiau systemau wrth eu nodi a sicrhau eu bod yn cael eu huwchgyfeirio i Fyrddau Ansawdd a Diogelwch sefydliadau.
- Pan fydd canlyniad anffafriol, dylid cynnal ymchwiliad ac adolygiad ambroffesiynol yn brydlon (dull adolygu marwolaethau amenedigol cenedlaethol MBRRACE)⁷ o'r gofal a ddarperir. Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau y gwrandewir ar y fam a'i theulu, y cânt eu cefnogi ac y bydd ganddynt rôl weithredol mewn unrhyw adolygiad os ydynt yn dymuno cael un. Yn ystod y cyfnod hwn, caiff pwynt cyswllt penodol ei bennu (sef bydwraig profedigaeth mewn achosion o farw-enedigaeth neu farwolaeth newyddenedigol)
- Bydd pob menyw sy'n teimlo bod arnynt angen cymorth ar ôl genedigaeth yn cael cyfle i gael ôl-drafodaeth ffurfiol



Parhad o ran gofalwr

Bydd menywod yn profi parhad o ran gofalwr drwy gydol eu taith mamolaeth

Mae parhad o ran gofalwr yn rhoi cyfle i fenywod a Bydwraedd/Obstetryddion ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth yn ystod y daith beichiogrwydd i fod yn rhieni. Cydnabyddir bod merched yn aml yn cael teithiau unigoledig iawn drwy feichiogrwydd - o deithiau syml i gymhleth sy'n gofyn am nifer o fewnbynnau arbenigol

Ymrwymadau

- Bydd pob menyw yn cael parhad o ran gofalwr drwy gydol ei thaith famolaeth gyda chysylltiadau di-dor â gofal arbenigol pan fo angen
- Bydd gan bob menyw fydwraig benodol; efallai hefyd y bydd angen obstetrydd penodol sy'n gyfrifol am gynllunio'r gofal mewn partneriaeth â'r fenyw a'i theulu.
- Bydd pob menyw yn cael cysondeb gofalwr cynenedigol ac ôl-enedigol gan ddim mwy na dwy fydwraig a dau dîm obstetrig.

Camau Gweithredu Cenedlaethol

- Bydd gweithgor amlbroffesiynol Cymru gyfan yn cael ei ddatblygu i helpu i weithredu parhad o ran modelau gofalwyr ledled Cymru er mwyn archwilio a datblygu model dichonoldeb o barhad o ran y gofalwr sy'n gyfrifol am ofal yn ystod genedigaeth. Caiff hyn ei gefnogi gan NSAG, HOMAG a'r rhwydwaith Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol

Camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd/Sefydliad

- Bydd Byrddau Iechyd yn datblygu modelau gofal ar gyfer bydwreigiaeth ac obstetreg sy'n cynnig parhad yn unol â chynllun gwaith amlbroffesiynol Cymru gyfan. Bydd hyn yn cynnwys:

Cyn geni

- Yn y cyfnod cynenedigol, bydd y fydwraig benodol yn cynnal ymweliad asesu 'archebu' cychwynnol, gan roi cyfle i fenywod ddechrau meithrin perthynas gyda'u bydwraig a chynllunio eu gofal ar y cyd
- Bydd gofal cynenedigol a arweinir gan fydwraedd yn unol â chanllawiau NICE 'Gofal Cynenedigol ar gyfer beichiogrwydd heb gymhlethdodau'10 yn cael ei gynnig i bob

menyw, yn cael ei ddarparu gan y fydwraig benodol a'i chefnogi gan fydwraig 'ffrind' a fydd yn ymgymryd â'r gofal cyn-geni ac ôl-enedigol pan nad yw'r fydwraig benodol ar gael.

- Pan fydd angen gofal cynenedigol obstetrig hefyd, darperir o leiaf pedwar ymweliad cyswllt cynenedigol yn y gymuned (i gynnwys yr ymweliad archebu a'r ymweliad cynllun geni 36 wythnos) gan y fydwraig benodol
- Pan fydd angen mewnbwn arbenigol i'w gofal ar fenywod, dylid trosglwyddo gofal yn ddi-dor rhwng lleoliadau a chyfathrebu'n effeithiol ac yn brydlon er mwyn sicrhau bod y fydwraig benodol yn ymwybodol o'r gofal a gynllunnir a'r canlyniadau
- Bydd Byrddau Iechyd yn ystyried dulliau amgen o ofal sy'n adlewyrchu demograffeg a lleoliad daearyddol cleifion e.e. clinigau telefeddygaeth rhithwir mewn ardaloedd gwledig i leihau'r pellter y mae menywod yn gorfod ei deithio i gael gofal

Yn ystod genedigaeth

- Dylai'r fenyw a'r fydwraig benodol gael trafodaeth yn wythnos 36 y bechiogrwydd er mwyn cynnwys opsiynau ar gyfer gofal yn ystod genedigaeth. Gall yr obstetrydd a'r neonatolegydd penodol gynnal hyn mewn achosion lle mae angen gofal arbenigol
- Bydd merched yn cael cynnig y dewis o asesiad esgor gartref lle bo hynny'n glinigol briodol

Ar ôl geni

- Y fydwraig benodol fydd cydgysylltydd allweddol y gofal ôl-enedigol a bydd yn anelu i ddarparu'r lefelau parhad gorau posibl, gan gynnwys o leiaf dri chyswllt bydwreigiaeth yn y gymuned gan gynnwys yr ymweliad asesu rhyddhau terfynol
- Bydd y fydwraig benodol yn cydlynu'r broses o drosglwyddo gofal i'r meddyg teulu a'r ymwelydd iechyd



Timau ambroffesiwn medrus

Bydd menywod yn cael gofal gan dimau ambroffesiwn, gyda mynediad at wasanaethau arbenigol

Rhaid i grwpiau proffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd ddatblygu sgiliau gweithio rhyngbroffesiynol cryf er mwyn sicrhau eu bod yn rhannu nodau, iaith a diwylliant clir i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Dylai hyfforddiant ambroffesiwn fod yn rhan safonol o ddatblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr proffesiynol, mewn sefyllfaoedd arferol ac mewn argyfwng

Ymrwymadau

- Bydd pob aelod o staff mamolaeth yn cael hyfforddiant ambroffesiwn bob blwyddyn
- Hyrwyddir dysgu ambroffesiwn a gwaith tîm drwy addysg bydwreigiaeth a chlinigwyr o ansawdd uchel mewn lleoliadau israddedig ac ôl-raddedig
- Cefnogir ymchwil mamolaeth blaenllaw ledled Cymru

Camau Gweithredu Cenedlaethol

- Bydd hyfforddiant ambroffesiwn blynyddol yn parhau drwy PROMPT (Hyfforddiant Ambroffesiynol Obstetrig Ymarferol) Cymru
- Bydd Llywodraeth Cymru, NSAG, HOMAG a'r rhwydwaith Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol yn datblygu cysylltiadau gwaith rhyngbroffesiynol cryf i sicrhau bod yr holl grwpiau proffesiynol sy'n darparu gofal mamolaeth yn cael eu cynrychioli ar lefel leol a chenedlaethol
- Bydd Sefydliadau Addysg Cymeradwy ledled Cymru yn hyrwyddo safonau uchel o ran addysg bydwreigiaeth a chlinigol gyda rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i fodloni'r medrusrwydd sy'n ofynnol ar gyfer rheoleiddio proffesiynol
- Bydd gweithgareddau ymchwil lleol a chenedlaethol yn cynyddu gan sicrhau cyllid parhaus drwy gyfrwng Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd/Sefydliad

- Bydd Byrddau Iechyd yn cefnogi ac yn sicrhau bod hyfforddiant ambroffesiwn blynyddol (e.e. PROMPT Cymru) yn cael ei gyflawni. Bydd hyn yn gofyn am ddarpariaeth briodol o adnoddau ac athrawon clinigol
- Bydd Byrddau Iechyd yn cefnogi ac yn sicrhau y caiff hyfforddiant penodol i'r

proffesiwn ei gwblhau fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff rheoleiddio proffesiynol e.e. hyfforddiant CTG

- Bydd Sefydliadau Addysg Cymeradwy ledled Cymru yn datblygu cyfleoedd addysgol amlbroffesiwn (gyda myfyrwyr meddygol, myfyrwyr bydwreigiaeth a gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig ag iechyd) i gefnogi dealltwriaeth a pharch at wahanol rolau proffesiynol
- Bydd Byrddau Iechyd yn sicrhau bod gofynion contract addysgol Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar gyfer hyfforddiant ôl-raddedig yn cael eu bodloni ar gyfer hyfforddeion sy'n gweithio mewn gwasanaethau mamolaeth, a bod gwybodaeth o arolwg blynyddol y GMC yn cael ei defnyddio i gefnogi a gwella hyfforddiant
- Bydd Byrddau Iechyd yn ymrwmo i Siarter yr SAS (arbenigol ac arbenigwr cyswllt) ar gyfer Cymru¹¹ i gefnogi a datblygu rôl meddygon SAS.
- Bydd Byrddau Iechyd yn galluogi pob aelod o staff bydwreigiaeth i gael goruchwyliaeth glinigol¹², i ddysgu drwy fyfyrion mewn grwpiau a chael mynediad at gymorth unigol, un i un pan fo angen
- Bydd Byrddau Iechyd yn sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ddatblygu'r sgiliau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer demograffeg newidiol y boblogaeth famolaeth. Yn benodol, ymateb i safonau cenedlaethol megis 'Care of the critically ill woman in childbirth; enhanced maternal care'¹³
- Bydd Byrddau Iechyd yn nodi arweinwyr obstetreg a bydwreigiaeth ar gyfer ymchwil a datblygu ac yn annog yr holl staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil
- Bydd yr AaGIC a'r Byrddau Iechyd yn hyrwyddo dysgu rhyngddisgyblaethol ac yn ystyried dulliau amgen o hyfforddi staff clinigol gan gynnwys hyfforddiant efelychu ac uwchsain drwy Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru i sicrhau bod ymarferwyr uwchsain medrus ar gael 24/7 ym mhob uned obstetrig yng Nghymru



Gwasanaethau o ansawdd cynaliadwy

Bydd menywod yn cael gwasanaethau mamolaeth sy'n gynaliadwy ac o'r ansawdd uchaf posibl

Dylai gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru ddarparu cydraddoldeb ar draws byrddau iechyd er mwyn sicrhau bod pob menyw a phob teulu yn cael gofal unigol sy'n briodol i'w hanghenion. Bydd hyn yn gofyn am adnoddau allweddol i sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu'n gynaliadwy yn y dyfodol

Ymrwymadau

- Bydd gan bob uned lefelau staffio priodol i sicrhau gofal diogel ac unigol i bob menyw yng Nghymru. Caiff y lefelau staffio eu hoptimeiddio drwy gadw grwpiau staff a chynllunio'r gweithlu'n ddiogel.
- Bydd datblygu arweinwyr yn cael blaenoriaeth gan gydnabod y rôl allweddol sydd gan arweinwyr effeithiol o ran datblygu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel.
- Bydd cynllunio olyniaeth yn rhan annatod o gynlluniau strategol cenedlaethol a lleol i sicrhau bod pob gwasanaeth mamolaeth yn gynaliadwy yn yr hirdymor
- Bydd gwasanaethau mamolaeth yn ceisio bod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol ac yn gyfrifol yn fyd-eang yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 201514

Camau Gweithredu Cenedlaethol

- Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu arweinyddiaeth drwy raglenni strwythuredig a ddarperir yn ganolog megis drwy Academi Cymru, cymrodyr arweinyddiaeth AaGIC a chyfleoedd amlbroffesiwn
- Bydd cynllunio olyniaeth ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn cael ei ddatblygu drwy'r rhwydweithiau proffesiynol ac yn cael cymorth gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)

Camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd/Sefydliad

- Bydd Byrddau Iechyd yn sicrhau bod lefelau staffio yn cydymffurfio â Birthrate+15 ac yn cyd-fynd ag RCOG (Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr), GPAS (Canllawiau ar gyfer darparu Safonau Anesthesia)¹⁶, Safonau newyddenedigol Cymru gyfan¹⁷ a chanllaw BAPM (Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain)¹⁸
- Bydd Byrddau Iechyd yn gweithio gydag obstetryddion i sicrhau bod cynlluniau swyddi teg yn caniatáu iddynt gynnal parhad â menywod tra eu bod yn ymestyn eu

rolau

- Bydd Byrddau Iechyd yn ymrwmo i sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus ar gael i staff mamolaeth a'u bod yn ymgorffori sgiliau arweinyddiaeth yn ymarferol, ar bob lefel, er mwyn sicrhau bod cynlluniau olyniaeth ar waith i arweinwyr ar gyfer y dyfodol
- Bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn ymateb i'r gyfradd gadael cyn gorffen ymysg hyfforddeion arbenigol ym maes Obstetreg a Gynaecoleg drwy ystyried pwyntiau mynediad amgen i'r rhaglen hyfforddi arbenigol, niferoedd ychwanegol o hyfforddeion a hyblygrwydd darparu hyfforddiant
- Bydd yr AaGIC a'r Byrddau Iechyd hefyd yn darparu cynlluniau swyddi strwythuredig a rhaglenni datblygiad proffesiynol ar gyfer meddygon arbenigol ac arbenigwyr cysylltiol (SAS) er mwyn sicrhau y cedwir y grŵp staff hanfodol hwn
- Bydd Byrddau Iechyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, WHSSC a'i gilydd i sicrhau bod gan wasanaethau arbenigol megis meddygaeth y ffetws, meddygaeth y fam a'r rheini sy'n dibynnu ar wasanaethau eraill (e.e. cardioleg) gynlluniau priodol ar waith i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau hyn o ran staffio ac adnoddau
- Bydd Byrddau Iechyd yn hwyluso aelodau cynrychioliadol o'r rhwydwaith Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol, HOMAG ac NSAG i fynd i'w cyfarfodydd eu hunain, gan roi cyngor proffesiynol i'r Llywodraeth a chynrychiolaeth ar ffrydiau gwaith i wella gwasanaethau mamolaeth ymhellach
- Bydd Byrddau Iechyd yn sicrhau y caiff lles staff ei flaenoriaethu, gyda thiworiaeth a mentora priodol ar bob lefel a nodi hyrwyddwyr ymddygiad yn y gweithle i annog amgylchedd cefnogol sy'n hyrwyddo tosturi a pharch at ei gilydd ar gyfer aelodau'r tîm.

Cyfeiriadau

1. Renfrew MJ et al (2014) *Midwifery and quality care: findings from a new evidence-informed framework for maternal and newborn care*. Cyfres Bydwreigiaeth Lancet. <https://www.thelancet.com/series/midwifery>
2. Llywodraeth Cymru (2011) *Y Weledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru* (2011) Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
3. Llywodraeth Cymru (2017) *Eich Babi, Eich Gofal: Arolwg yn archwilio profiadau menywod o feichiogrwydd a genedigaeth yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
4. Llywodraeth Cymru (2019) *Lleisiau Bydwagedd yng Nghymru: Arolwg yn archwilio barn a phrofiadau bydwagedd o weithio yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
5. Llywodraeth Cymru (2018) *Cymru Iachach: Ein cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
6. RCOG (2019) *Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
7. NPEU (2018). *The national perinatal mortality review tool*. Rhydychen: NPEU.
8. NICE (2017). *Canllaw NICE CG190 Intrapartum care for healthy women and babies*. Llundain.
9. NPEU (2011) *The birthplace national cohort study: perinatal and maternal outcomes by planned place of birth. Rhaglen ymchwil Birthplace in England*. Rhydychen: NPEU.
10. NICE (2019). *Canllaw NICE CG62 Antenatal Care for Uncomplicated pregnancies*. Llundain
11. Llywodraeth Cymru (2016). *Siarter SAS (arbenigol ac arbenigwr cyswllt) ar gyfer Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
12. Llywodraeth Cymru (2017). *Goruchwyliaeth Glinigol i Fydwragedd yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
13. RCOA (2018). *Care of the critically ill woman in childbirth; enhanced maternal care*. Llundain
14. Llywodraeth Cymru (2015). *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
15. Birthrate plus. <https://www.birthrateplus.co.uk/>
16. RCOA (2016). *Guidelines for the Provision of Anaesthetic Services (GPAS)*. Llundain: RCOA
17. GIG Cymru (2013) *Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan – 2^{il} Argraffiad*. Caerdydd: Cymru
18. Canllaw BAPM (Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain). <https://www.bapm.org/resources/category/BAPM-publications>

